LEG-01-2002 (min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 8 Ionawr 2002
**Amser:** 9:30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

| **Presennol:** | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Brian Gibbons | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Peter Law | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |

| **Swyddogion:** | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Alan Pugh

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy’n codi: LEG-29-2001 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau eu bod wedi cytuno yn y cyfarfod diwethaf i gynnal seminar amser cinio ar ddrafftio a phrosesu deddfwriaeth. Byddai'r seminar, a drefnwyd ar gyfer dydd Mercher 27ain Chwefror, yn agored i holl Aelodau'r Cynulliad a'u staff ymchwil.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC386: Rheoliadau Cyflenwad Dwr (Ansawdd Dwr) 2001**
3.1 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3. Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC386 (Adroddiad).

**LC387: Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.4 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oeddent o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC387 (Adroddiad).

**LC388: Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC388 (Adroddiad).

**Eitem 5: Gohebiaeth y Pwyllgor**

**Llythyr oddi wrth Carwyn Jones AC, Gweinidog dros Faterion Gwledig, dyddiedig 4 Rhagfyr 2001**

**LC337 – Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 10) 2001**
Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymateb i'w lythyr dyddiedig 16 Hydref 2001 oddi wrth Carwyn Jones AC, Gweinidog dros Faterion Gwledig ar **Orchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Diwygio) (Cymru) (Rhif 10) 2001** (LC337). Yr oedd y Pwyllgor wedi ystyried y Rheoliadau i'w cofnodi o dan Reol Sefydlog 11.5 am y rhesymau canlynol:-

- Erthygl 2(6) – Credwyd bod testun Erthygl 29A(2) fel y'i mewnosodwyd ar gyfer Cymru gan OS 2001/1874 (W.134) yn wahanol i'r un a fewnosodwyd ar gyfer Lloger gan OS 2000/1862. Ymddangosai fod y gwelliant a wnaed gan Erthygl 2(6) yn berthnasol i destun Erthygl 29A(2) a oedd mewn grym yn Lloegr yn hytrach na'r testun a oedd mewn grym yng Nghymru.
- Cyfeiriodd Erthygl 4 at "ddarpariaethau Rhannau III neu IIIA o Orchymyn 1983 fel y'u diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn". Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod y Gorchymyn presennol yn diwygio Rhan IIIA.

1. Yn ei ymateb dywedodd y Gweinidog

- er bod teitl y gorchmynion diwygio yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr, yr oedd testunau presennol Cymru a Lloegr o Erthygl 29A(2) a fewnosodwyd yr un peth.
- yr oedd yn bosibl darllen geiriad presennol Gorchymyn 1983 fel un a oedd yn cymhwyso Rhannau III a IIIA yn gyfunol, er nad oedd y Gorchymyn yn diwygio Rhan IIIA.

4.3 Ar ôl derbyn sylwadau'r Gweinidogion daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw wall yn Erthygl 2(6) ac er bod mân wall yn Erthygl 4 yn cyfeirio at Ran IIIA fel "diwygiwyd", yr oedd yn briodol cyfeirio at Ran IIIA yn y ddarpariaeth drosiannol. Yn unol â hynny, nid oedd unrhyw faterion yr oedd angen i'r Pwyllgor eu hadrodd yn ffurfiol i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 11.5.

4.4 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC337 (Adroddiad).

**Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 15 Ionawr 2002.